**CYNGOR CYMUNED CYNWYL ELFED**
Cyfarfod a gynhaliwyd am 7.30 y.h. ar Nos Lun 16.06.2025
Yn Neuadd Cymdeithasol Cynwyl Elfed
**Yn Bresennol:** Cllr.Amy Evans (Cadair.), Cyng. Elfed Davies, Cyng. Eifion Jones, Cyng. Demle Phillips, Cyng. Bryan Davies, Cyng. Aled Jones, Cyng. Julian Evans a'r Cyng. Robin Bowen.
**Clerc:** Enid Davies
**Cyfieithydd:** Hefin Jones
**Ymddiheuriadau:** dim

**21. Datgelu Buddianau Personol:**
Dim.

**22. <u>Cadarnhau Cofnodion Cyfarfod 19.05.2025</u>**
Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 19.05.25 yn gopi cywir. Cynigiwyd gan y Cyng. Elfed Davies ac eiliwyd gan y Cyng. Bryan Davies.

**23. <u>Materion i'w hadrodd</u>**
a. <u>Materion Priffyrdd</u>: gweler o dan "Materion Priffyrdd".
b. <u>Cyfleusterau Cyhoeddus</u> -.gweler o dan adroddiadau is-bwyllgorau.
c. <u>Diffibriliwr Cwmduad</u> - Yn dilyn arweiniad gan AchubBywyd Cymru - derbyniwyd tri dyfnbrys - craffwyd yn fanwl gan y Cadeirydd a'r clerc. Mae diffibriliwr wedi'i archebu oddi wrth y Defib.Store a dylai gyrraedd o fewn yr wythnos neu ddwy nesaf.

**24.<u>Gohebiaeth.</u>**
*Nodir bod copïau o'r e perthnasol a dderbyniwyd yn cael eu hanfon at y cynghorwyr drwy e-byst.*

- E-byst oddi wrth rhai o drigolion yn cwyno ynghylch y terfyn cyflymder 20 mya drwy Hermon - Cynnygiwyd gan RB ac eiliwyd gan ED - penderfynwyd gan y Cyngor holi am adolygiad o'r terfyn cyflymder gan Cyngor Sir Caerfyrddin.
- Ymgynghoriad Cynllun Clinigol - Nodir.
- Canolfan Cymdeithasol Cynwyl Elfed - Bydd pris archebu'r neuadd yn codi o 1 Awst ymlaen:Neuadd Fawr - £17.50 a'r Ystafell Fach Cyfarfod i £12.50.
- Un Llais Cymru Pwyllgor Ardal - nodwyd pwysigrwydd bod cyrychiolwyr y Cyngor yn mynychu'r cyfarfodydd.

**25. <u>CynllunioPL/09335</u>-** Codi garâj ar wahân newydd arfaethedig gyda swyddfa gartref a champfa. Newid defnydd o safle cais rhannol i ddod yn gwrtil domestig a gardd a'r holl waith cysylltiedig- Y Ffawydd, Cynwyl Elfed, Caerfyrddin SA33 6TE - daeth yr ymgynghoriad i ben ar 13/07/2025. Cymeradwyodd y Cyngor y penderfyniad I gefnogi'r cais hwn.

**26. <u>Taliadau a Chyllid</u>**

**<u>(a)Taliadau a Chyllid</u>**

| | |
|---|---|
| • ME Davies Cyflog Clerc 05/25 - | £ 309.90 |
| • Maria Thomas Magic Mops Taliad 28/04/25-25/05/25 | £ 230.00 |
| • E.D.F. Trydan - Debyd Uniongyrchol -01.05.25-31.05.25 | £ 42.66 |
| • Defib Store _ Padiau electrod iPad SP1 x2 | £ 134.40 |
| • Defib.Store Padiau electrod. Zoll x3 | £. 162.00 |
| • Defib Store Diffibriliwr Cwmduad | £1,116.00 |
| • Hefin Jones - Gwasanaeth cyfieithu | £ 255.00 |
| • Canolfan Cymdeithasol Cynwyl Elfed | £ 40.00 |
| • | |

Penderfynodd y Cyngor gymeradwyo'r taliadau uchod.

**<u>b) Archwiliad 31.03.2025</u>**
Derbyniwyd yr Adroddiad Archwilio Mewnol. Penderfynodd y Cyngor gymerdwyo'r Datganiadau Cyfrifyddu a'r Datganiadau Llywodraethu Blynyddol. Cynigiwyd gan y Cyng. Elfed Davies ac eiliwyd gan y Cyng. Bryan Davies.
Mae'r Hysbysiad o Hawl Etholwyr I weld y cyfrifon wedi'i gyhoeddi ar wefan y Cyngor ac wedi'i arddangos ar hysbysfwrdd y Cyngor Cymuned.

- .
- ADOLYGIAD - CYSONI DERBYNIADAU A THALIADAU

Fe wnaeth Cynghorydd Amy Evans wirio'r derbyniadau a thaliadau hyd at 31 Mai 2025 gan eu harwyddo er mwyn cadarnhau ei fod wedi gwneud hyn a'u bod yn ymddangos yn gywir.

## 27. Materion Priffyrdd:

***Materion Priffyrdd adroddwyd ar 16.06.2025***

a) C2044 - o Cyffordd Penrhiwcrynfryn tuag at cyfeiriad Newchurch - gwyneb y Ffordd yn ddifrifol o wael.

## 28. Adroddiadau gan Is-Bwyllgorau— Pwyllgor Cyfleusterau Cyhoeddus Cynwyl Elfed.

- **Canolfan Cymdeithasol Cynwyl Elfed:** - Cynrychiolodd y Cyng. Elfed Davies y Cyngor mewn cyfarfod rheolaidd o'r Neuadd ar 11.06.25. Cadarnhaodd y bydd ffioedd llogi'r neuadd yn cynyddu. Bydd gwaith yn cael ei wneud i ystafell gefn y Neuadd dros y wythnesoedd nesaf. Mae'r pwyllgor wedi gofyn am gymorth gan unrhyw un sy'n gallu gwirfoddoi i wneud gwaith atgyweirio ac addurno ac ati.
- Mae ceir yn parhau i barcio ar ochr dde'r Neuadd ac adroddwyd y gall achosi rhwystr ar adegau.
- Adroddwyd bod Pwyllgor y Neuadd wedi cynnig gosod unrhyw blaciau coffa o Gapel Bethel ar waliau y Neuadd os gwerthir y Capel. Ystyriwyd ei bod yn bwysig bod yr eitemau hyn o bwys hanesyddol yn cael eu Cadw yn y pentref.
- **Cae Chwarae Bro Elfed:** -
- Hysbyswyd y Cyngor mai dim ond 3 aelod sydd ar y pwyllgor bellach. Y pwyllgor heb fod yn llwyddianus yn ei cais am grant ar yr adeg yma. Ni ddarganfuwyd y cyfansoddiad gwreiddiol. Mae cyfansoddiad newydd wedi'i ddrafftio. Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i dalu costau yswiriant y parc ac mae wedi gwneud hyn ers blynyddoedd lawer. Cynnigiwyd gan y Cyng. Elfed Davies bod y Cyngor yn parhau i dalu'r costau yswiriant, eiliwyd hyn gan y Cyng. Bryan Davies. Yn y cyfamser mae'r Clerc i ddarganfod a ellir cynnwys yswiriant y parc gydag yswiriant y Cyngor Cymuned. Penderfynwyd bod y Cyngor Cymuned yn talu costau i'r "Land Registry" er mwyn darganfod a yw'r tir wedi'i gofrestru. Dywedodd Cyng. Amy Evans wrth y cyfarfod bod pwyllgor y parc yn mynd i drefnu digwyddiad codi arian, carnifal pentref o bosibl. Dywedodd y Cyng. E. Davies either bod hi'n bwysig I rieni plant ifanc gymryd rhan a chefnogi Pwyllgor y Parc.
- **Cyfleusterau Cyhoeddus:**
- Roedd y Cyng. Julian Evans wedi bod i gael golwg ar y cyfleusterau cyhoeddus a roedd i weld yn cael ei gadw'n dda. Bydd Cyng. J.E. yn rhoi dau bocs newydd dosbarthu papur toiled yn ei lle yn ystod yr wythnos.
- Cyng. R Bowen a J Evans I ddarllen y mesurydd dŵr yr wythnos hon.

## 29. Unrhyw Mater Arall

- *Hyfforddi -*
- Mynychodd y Cyng. Aled Jones weminar Gynefuno i Gynghorwyr Newydd ar 12.06.25.
- Clerc i drefnu i'r Cyng. Robin Bowen a'r Cyng. Amy Evans i fynychu hyfforddiant deall y gyfraith Modiwl 4 ar 08.07.25 a'r Cyng. Julian- Deall y Gyfraith Modiwl 4 ar 23.06.25. (2 le am ddim) 1 @ 505 £21) ac Aled Jones Côd Ymddygiad U.LI.C. ar 03.09.25.(am ddim).
- Hyfforddiant Côd Ymddygiad ar gyfer Cynghorau Tref a Chymuned - 10.07.25 - Cyngor Sir Gâr Pwyllgor Safonau. Ar Zoom. Cyng. BD, ED, JE a'r clerc ED i fynychu. (Hyfforddiant am ddim)

## 30. Dyddiad ac amser y cyfarfod nesaf.

Cyfarfod nesaf ar: Nos Lun, 21 Gorffennaf 2025

am: **7:30** yr hwyr.

.

Daeth y cyfarfod i ben 20.45 awr.

…………………………………………………………………
Cadeirydd.

…………………………………………………………………
Dyddiad.